

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 3ydd 2019 yn Neuadd Derfel. Yn bresennol oedd Rita Jones (Cadeiryddes), Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Eifion Davies, Gwenda Evans, Meilir Jones, Dewi Pritchard, Alwyn Jones a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Iolo Evans, Gary Thomas, Eilir Rowlands a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Cofnodwyd buddiant gyda'r cais cynllunio perthnasol.

### **v) Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

- i) Cyffordd pentref Llanfor i mewn i'r A494 - roedd canghennau'r coed ar ochr chwith y gyffordd wedi cael eu torri nol.
- ii) Cangen coeden yn sownd o dan Pont Llandderfel – roedd trefniadau wedi cael eu gwneud i glirio'r gangen.
- iii) Clirio/lledu ochrau'r ffyrdd gwledig yn ardal Llandderfel – nodwyd fod sylwadau'r Cyngor am y gwastraff a oedd wedi cael ei adael o flaen giataiu i gaeau ac anheddau wedi cael eu rhaedru lawr i'r gweithlu.
- iv) Canghennau coed yn dod drosodd i ffordd Bethel i Landderfel – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trafod y mater gyda Till Hill ac roeddynt wedi cytuno i docio'r coed.

### **b) Cynghorydd newydd i Ward Llanfor.**

Nid oedd unrhyw enw wedi dod i law hyd yn hyn felly cytunwyd i'w drafod eto ym mis Hydref.

### **c) Lloches bws newydd Llanfor.**

Cytunwyd i anfon llythyr at berchennog y tŷ cyfagos i ymgynghori gyda hwy am y cais i osod lloches newydd.

### **ch) Mynwent Llandderfel – gwaith cynnal a chadw.**

Diolchwyd i Dewi Pritchard am glirio'r pridd o flaen mynediad y fynwent. Roedd y cler wedi derbyn pris gan Dewi Rees am drwsio a phaentio giataiu'r fynwent a chytunwyd i ofyn iddo wneud y gwaith. Cytunwyd i ofyn iddo hefyd am bris ychwanegol am beintio'r rheiliau bob ochr i'r giataiu.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Cyngor Gwynedd.**

- i) Cais am drwydded gan Yr Hwb, Ysgubor Isaf, Bala - oherwydd i'r cais gael ei anfon yn gyntaf mewn camgymeriad i Gyngor Tref Y Bala roedd yn rhy hwyr i'r Cyngor Cymuned rhoi sylwadau ar y cais.
- ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Medi.
- iii) Gwaharddiad Trafndiaeth trwodd dros dro ym mhentref Llanfor ar y 3/9/19.

### **b) Parc Cenedlaethol Eryri**

- i) Pwyllgor Ymgynghorol / Partneriaeth Llyn Tegid - llythyr yn ein cynghori eu bod am ail afael ar y pwyllgor lleol a bwriedir cynnal cyfarfod ar y 15/10/19. Cytunodd Alwyn Jones fynychu'r cyfarfod os oedd ar gael.
- ii) Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-31 – Chopi o'r cynllun gorffenedig.
- iii) Nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned – gwahoddiad i'r Cyngor fynychu un o'r nosweithiau.

c) Amrywiol.

- i) Ty Hers, Llanfor - llythyr gan y perchennog yn ein cyngori eu bod, ar gais Cyngor Gwynedd, am osod ffens diogelwch o gwmpas yr adeilad i ddiogelu'r cyhoedd.
- ii) Rali GB 2019 - manylion am y llwybr oedd y rali am ei ddilyn pan fyddai'n ymweld â'r ardal ym mis Hydref.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/63/229D – Adeiladu cabanau ar gyfer Canolfan Gofal Parhaus. Ysgol Gynradd Bro Tryweryn, Frongoch.

C19/0477/04/LL – Gosod 5 o gytiau bugeiliaid tymhorol ynghyd a thoiledau. Tir gyferbyn a Cae Coryn, Llandderfel (gwybodaeth ychwanegol a newid i'r safle).

Nid oedd gwrthwynebiad i'r newidiadau i gais Cae Coryn. Gan fod y Cyngor wedi cael eu henwi ar gais Ysgol Bro Tryweryn oherwydd eu bod yn ail leoli'r parc chwarae, cytunwyd nad oedd yn briodol i'r Cyngor fynegi barn swyddogol ar y cais (Alwyn Jones yn datgan buddiant). Nodwyd os oedd y nifer o safleoedd parcio yn ddigonol ar gyfer y staff ychwanegol.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwiliad Blynyddol.

Nid oedd y Clerc wedi derbyn yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol. Gan fod angen arddangos yr hysbysiad 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' cyn diwedd mis Medi a'r Cyngor ddim yn cyfarfod eto tan fis Hydref rhoddwyd caniatâd i'r clerch i'w arddangos pan fyddai'n cyrraedd.

b) Derbyniadau.

Derbyniwyd ail randal y Praesept o £4,500

c) Cais yswiriant damwain lloches bws Sarnau.

Cafwyd cadarnhad fod y cwmni yswiriant wedi gofyn i'r cwmni DWF Law LLP geisio adhawlio'r £250 'excess' y cais yswiriant.

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Nyrsys Marie Curie. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Ffordd y Berwyn (Bala i Langynog) - nodwyd fod canghennau'r coed yn dod drosodd i'r ffordd ger y cattle grid wrth Bryn Meredydd. Gofynnwyd hefyd os oedd posib gwneud unrhyw welliannau yn is i lawr y ffordd i gyfeiriad Bala lle roedd y cerrig yn dod allan i'r ffordd gan eu bod yn creu trafferth os oedd dau gerbyd mawr yn dod i gyfarfod ei gilydd. Bu i'r Cyngor Cymuned dynnu sylw Cyngor Gwynedd i'r broblem yma rhai blynyddoedd yn nol.

ii) Draen wedi tagu ger Bryn Derw, Glanrafon a'r dŵr yn gorlifo i'r ffordd.

iii) Llwybr troed heibio'r lloches bws a'r wal o'i blaen yng Nghefnddwysarn - yn dilyn ein e-bost ar yr 10/3/19 doedd y wal heb gael ei thrwsio ac roedd y cerrig dal yn rhydd. Hefyd, nodwyd fod llawer o chwyn yn tyfu ar y llwybr fyny o'r lloches am yr ysgol - gan gynnwys y planhigyn ragwort.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,  
Hydref 1af yn Neuadd Llandderfel am 7.30 y.h.**